HH

# PENILLION:

## YN RHODDI HANES
## YR HYN A GYMERODD LE
# YN EBENEZER,

*Ar y 18ed o MYHEFIN*, 1845.

---

"Gwae a adeilado dref trwy waed, ac agadarnhao ddinas mewn anwiredd."—HABACUC ii, 12.

---

A safodd yr arfaeth
Mewn tristwch ag wylo,
Wrth weled ei meibion,
Yn cael eu llofruddio.
Er golau Efengyl,
Ysgiminadd Eleias,
Dy feibion Dedwyddol,
Er cymaint dy urddas.

---

1 Chwi grefyddwyr trwy'r Eglwysi
Cyd wrandewch ar alar gân,
Y modd y mae rhyw gau athrawiaeth
Yn ymledu yn y blaen,
Mae rhyw falchddyn yn ein hardal
Yn ymdrechu ynmhob man
I anu athrawiaithau Ddgeythnr
Er mwyn gyru lawr bob gwan.

2 Chwi hên Deilu yr athrawiaeth
Byddwch ffyddlon au eich Dawn
Mae rhyw wreyddau chwerw garw
Yn gadu maent o'ch cylch yn llawn
A thrwy hyny yn pery blynder
Ac am lygru Seion wyw;
O anwyliaid byddwch effro,
Maent yn gwadu gras ein Duw.

3 O hen Eglwys Ebenezer,
Edrych tu a'r ardal draw,
Lleddaist ddau o'ch hen flaenoriaid,
Eu gwaed ofynir ar dy law,
Lleddaist hwynt mewn ysbryd digllon,
Yn ol eu tystiolaeth ar y maes,
Eu gwaed sy'n llefain yn dy ganol,
Ymolch ar frys trwy ysbryd gras.

4 Cofio wneir am euriau Eleias,
Y rhyw oesoedd rhyfedd faith,
Gelwaist Peter yn hen greadur,
Gwaeth na Judas dyma 'th iaith,
Geuriau gofin gyda dyrmyg,
Gan y plant yn seion Duw,
Geuriau glwyfant dy gydwybod,
Os yn blentyn effro byw.

5 Beth a ddaeth o'r hen bregethwr,
Gafodd ddywygiadau mawr,
Pa le y mae yr hen athrawiaeth,
Nid yw i'w chlywed yma 'nawr ;
Ni cheir clywed son am arfaeth,
Nag am ethol teulu dyn,
Ni cheir clywed son am unpeth,
Ond am allu mawr pob un.

6 O'r hên bregethwyr duwiol dawnus,
Yr oedd duwioldeb yn eu gwedd,
Mae eu henaid yn Ngharsalem,
Au cyrph yn dawel yn y bedd ;
Ond yn awr mae crytsach teyeng,
Balchedd goegedd gas dihedd,
Esampl anaddas, groes i grefydd,
Sydd i'w weled yn eu gwedd.

7 Ymddangosant fel cyfreithwyr,
Mynant oll eu ffordd eu hun,
Clwyfant bob gydwybod dyner,
Nyd oes ynddynt deimlad dyn ;
Gyrant or Eglwysi yn fuan,
Gan eu coegni ysbryd gras
Oni ddaw rhyw gyfnewidiad,
Sethry'r grefydd ar y maes.

8 Gofia Lloyd am amser marw,
Mae dy euriau oll ar glawr,
Sefyll wnest ar fedd hen Ddafydd,
Gwaeddest allan gwnewch yn iawn;
Ty wnest chwerw weithred erchyll,
Pair it ofyd yn y glyn,
Duw faddeuo yr erchyll drosedd,
Tra yn teithio yr ochor hyn.

9 Y weithred arw a gyflawnest,
Ydoedd rhyfedd iawn a syn,
Beth a ddaw osi adolygu,
A ydyw yn gysur it pryd hyn;
Beth a ydyw yr hyn gyflawnest,
Yn llawn o gysyr ag o hedd,
Beth a fydd dy farn am deny,
Pan ddel tewyll nos y bedd.

10 Ti flaenorest i ysgymuno,
Hen flaenoriaid ar y mas,
Oeddynt iachus mewn athrawiaeth,
Diwyd gyda moddion gras;
Beth enillodd Lloyd a Eleuas,
Yn y weithred hon yn awr,
Bydd rhyw gofio syn am deny,
Pan bo'ch gyrph yn llwch y llawr.

11 Er gorthrymder para wnaethant,
Yn gredynwir trwy eu hos,
Waldensaid oiddynt o grediniaeth,
Er gorthirymder plant y nos;
Para yn uniawn-gred-wyr wnaethant,
Nes cyrieddad ty eu tad,
Uniawn-gred-wyr nes myn'd adre,
Er dyodde gwawd a brad.

12 Er eich bod yn Ebenezer,
Dros arminiaeth gael y blaen,
Gwadu wnewch mewn geuriau eglur,
Nad oes angen Ysbryd Glan;
Dywedwch fod y Bible yn ddygon,
I gyfodi y marw yn fyw,
Ag i'w ddwyn tuag adre yn dawel,
Trwy anialwch at eu Dduw.

13 Mae yr wir Eglwys etto yn aros,
Er eich ymdrech ar y llawr,
Gredant ynnghyfamod Drindod,
Cyn selfaeni daiar lawr;
Mae ei gredo etto yn aros,
Yr un o'r hen Waldensaid gynt,
Nid oes gobaith am un llwyddiant,
Hyd nes chwyth y dwyfol wynt.

14 Mae yr hen arfaeth ar hen Ethol,
O dy yr Eglwys nid y byd,
Mae rhaglyniad ar sancteiddiad,
Er ei easglu oll ynghyd;
Mae eiriolaeth Crist ai weddi,
Dros ei blant wrth deithio yn mlaen,
Angau dwyfol yn eu meddwl,
Enyn ynddynt nefol dân.

15 Nid dros bawb mae Crist yn eiriol,
Ac ni weddia drostynt chwath,
Ond hen deuly y cyfamod,
Dwg hwynt oll i ben eu taith;
Geylw'r prynedigion adre',
Draw o dir Assyria bell,
Teulu'r gaethgled yn eu amser,
Dwg hwynt oll i'r wlad sydd well.

16 Fe ddaw fynu i'r deg a thrngain,
Derfyddeu gofidiau drwg,
Teulu Babel llawn wylofain,
Ddont i dre er dyodde' gwg;
Yr dysgleurdeb mwyn gwasdadol,
Lle mae Iesu Grist yn ben,
Yn ei gwmpni gaffom aros,
Fo'm dymuniad byth.—Amen.

Traethwr Gwirionedd.

---

Argraffwyd gan John Coates, Abertawe.